**PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG**
**YSTAFELLOEDD PWYLLGOR A/B – CANOLFAN DDINESIG CASTELL-NEDD**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 20 Medi 2019**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.M.Penry** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.W.Wood** |
| **Cynghorwyr**: | S. ap Dafydd, A.R.Aubrey, C.Galsworthy, D.Keogh, A.McGrath, W.F.Griffiths a/ac R.Davies |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Griffiths, N.Thomas, A.Lewis, N. Jones a/ac T.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr E.V.Latham |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir.

2. **ADRODDIAD GWEITHREDIADAU GWASANAETH Y GAEAF**

   Roedd yr adroddiad a gylchredwyd yn cyflwyno'r diweddaraf, yn ôl cais Aelodau'r Pwyllgor Craffu, am y paratoadau cyfredol i sicrhau y cyflwynir gweithrediadau'r gaeaf yn llwyddiannus, yn barod at dymor y gaeaf 2019-20.

   Nododd aelodau er bod llai o lwybrau'n cael eu graeanu yn ystod y blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i bwysau cyllideb, roedd y cerbydlu presennol o gerbydau graeanu yn barod ar gyfer dechrau tymor y gaeaf, ac roedd y pentyrrau graean yn llawn. Parhaodd y cyfarpar cyfrifiadurol diweddaredig ar y cerbydau i ddarparu data defnyddiol, megis yr ardaloedd a driniwyd a'r cyfraddau graeanu.

   Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

3. **<u>DEWIS EITEMAU PRIODOL O AGENDA BWRDD Y CABINET AR GYFER CRAFFU CYN PENDERFYNU (AMGAEIR ADRODDIADAU BWRDD Y CABINET AR GYFER YR AELODAU CRAFFU).</u>**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

<u>Clefyd Coed Ynn</u>

Roedd adroddiad Bwrdd y Cabinet a gylchredwyd yn cynnwys gwybodaeth am effaith ariannol ac amgylcheddol posib Clefyd Coed Ynn Chalara yn y dyfodol, a oedd ar hyn o bryd yn effeithio ar nifer mawr o goed ar dir y cyngor a thir preifat.

Holodd yr aelodau a oedd cyfeiriad at leoedd chwarae yn yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at leoedd chwarae a berchnogir ac a reolir gan Gynghorau Tref/Cymuned. Cadarnhaodd swyddogion fod y ffigurau yn yr adroddiad yn berthnasol i'r lleoedd chwarae a berchnogir gan y cyngor yn unig. Dyletswydd perchnogion y tir fyddai rheoli'r coed ar eu tir. Fodd bynnag, byddai'r cynllun gweithredu'n cynnwys sut byddai'r cyngor yn rhaeadru'r wybodaeth am y clefyd i berchnogion tir eraill. Byddai hyn yn cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned.

Nodwyd hefyd lle bo tir wedi'i brydlesu gan y cyngor, byddai telerau'r brydles unigol yn pennu pwy fydd yn gyfrifol am unrhyw goed ar y tir hwnnw.

Holwyd ynghylch cludo ac ailddefnyddio'r pren marw. Cadarnhawyd bod Clefyd Coed Ynn bellach mor gyffredin, nad oedd unrhyw gyfyngiad ar gludo'r holl goed a dorrwyd. Golygai hyn y gellid defnyddio'r pren hefyd mewn prosiectau bach ac mewn stofiau coed ac ati. Fodd bynnag, rhagwelwyd y byddai gwerth ailwerthu'r pren yn isel o ganlyniad i nifer y coed y mae angen eu torri, a byddai'r rhan fwyaf o'r pren yn cael ei ailgylchu.

Nododd aelodau er bod Gorsafoedd Ynni Biomas yn defnyddio pren i greu ynni, ni fyddai coed ynn yn addas ym mhob achos, gan y dyluniwyd y broses i ddefnyddio coed syth megis conifferau sy'n haws eu rheoli gyda'u prosesau.

Byddai ailblannu'r coed a gymynwyd â rhywogaethau eraill, at ddibenion gweledol a bioamrywiaeth yn cael ei gynnwys yn y cynllun

gweithredu, a threfnwyd cyfarfodydd parhaus ynghylch rheoli coetiroedd.

Oherwydd maint y gweithrediad, gellir defnyddio contractwyr yn ogystal â staff y cyngor er mwyn i dorri'r coed a chael gwared arnynt.

Trafodwyd y meysydd canlynol hefyd:

- Clefyd Coed Llarwydd,
- Rhododendronau,
- Cyllido'r prosiect,
- Diogelwch y briffordd.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Profi Cerrig Coffa a Chofebau

Roedd yr adroddiad a gylchredwyd yn cynnwys polisi arfaethedig ar gyfer profi cerrig coffa a chofebau a fyddai'n ffurfioli'r gweithdrefnau presennol ac yn darparu ymagwedd glir a chyson at archwilio cerrig coffa a chofebau yn yr holl fynwentydd a reolir gan yr awdurdod.

Trafododd Aelodau pa mor aml y byddai'r archwiliadau'n cael eu cynnal, a nodwyd y byddai'n digwydd pob pum mlynedd, er os penderfynwyd bod carreg goffa'n ddiogel, ond bod angen arsylwi arni, yna byddai'r archwiliadau dilynol yn fwy aml. Nodwyd mai rhoi cerrig coffa i orwedd fyddai'r dewis olaf, ac y byddai cerrig coffa yn cael eu hatgyfnerthu â pholyn neu eu claddu mewn twll dyfnach lle bo modd.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet

Parcio dros Nadolig 2019

Nododd aelodau yn y blynyddoedd blaenorol pan gynigiwyd parcio am ddim dros y Nadolig yn yr wythnosau cyn y Nadolig, fod nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu yng nghanol trefi - 11% ym Mhort Talbot er enghraifft. Er ei bod hi'n anodd cael gwybodaeth fesuradwy gan fasnachwyr lleol, teimlant bod budd o'r parcio am ddim.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

4. **BLAENRAGLEN WAITH 2019-20**

Nododd y pwyllgor y Blaenraglen Waith.

**CADEIRYDD**